



Tribiwnlys Addysg Cymru

Gorchmynion hawliad

Ynglŷn â'r canllaw hwn

Mae'r canllaw hwn yn egluro'r amserlenni ar gyfer gorchmynion hawliad a wneir gan Dribiwnlys Addysg Cymru. Os hoffech gael unrhyw wybodaeth ychwanegol, cysylltwch â'r Tribiwnlys.

Clercod tribiwnlysoedd yw'r staff sy'n prosesu apeliadau a hawliadau. Maent yn ateb eich llythyrau a'ch galwadau ffôn. Dim ond cwestiynau am weinyddu eich achos y mae modd iddynt eu hateb. Ni allant roi cyngor cyfreithiol. Mae hyn yn golygu na allant roi eu barn, nac argymhell a ddylech gymryd camau penodol.

Dewis Iaith

Mae'r Tribiwnlys yn croesawu derbyn gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg neu yn Saesneg. Byddwn yn ymateb yn Gymraeg i unrhyw ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi cyn i ni ymateb.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd. Cysylltwch â'r Tribiwnlys am fersiwn Saesneg o'r ddogfen hon. Gallwch hefyd gyflwyno ffurflenni, dogfennau a sylwadau ysgrifenedig i'r Tribiwnlys yn Gymraeg neu yn Saesneg.

Adnoddau gwybodaeth

- [Rheoliadau Tribiwnlys Addysg Cymru 2021](#)
- [Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021](#)
- [Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg \(Cymru\) 2018](#)
- [Rheoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol \(Cymru\) 2021](#)

Ein gorchmynion

Mae Gorchmyn Tribiwnlys yn orchymyn i gyflawni camau penodol a wneir gan y Tribiwnlys. Mae gorchmynion yn cael eu gwneud ar ôl i baneli wrando ar achosion a chyhoeddi adroddiad penderfyniad terfynol.

Mae ein gorchmyn yn rhwymo'r corff cyfrifol. Mae ganddynt ddyletswydd i wneud yr hyn y mae'r Tribiwnlys yn ei orchymyn.

Terfyn amser

Fel arfer, mae'n rhaid i'r corff cyfrifol weithredu ein gorchmyn o fewn cyfnod cyfyngedig o amser. Bydd cadeirydd y tribiwnlys yn cynnwys y terfynau amser ar gyfer gweithredu'r gorchmyn yn y penderfyniad ysgrifenedig. Mae'r cyfnod a ganiateir fel arfer yn cychwyn y diwrnod ar ôl i'r corff cyfrifol dderbyn ein gorchmyn. Mae'r cyfnod a ganiateir yn amrywio yn dibynnu ar y math o orchymyn.

Mae'n gwaith ni wedi gorffen

Unwaith y byddwn wedi cyhoeddi ein penderfyniad, ni allwn gymryd unrhyw gamau pellach. Nid oes gennym bŵer i oruchwylio sut a phryd y mae'r corff cyfrifol yn cyflawni ein gorchmyn. Hyd yn oed os nad yw'r corff cyfrifol yn gwneud yr hyn yr ydym wedi'i orchymyn o fewn y terfyn amser, ni allwn gymryd camau pellach. Byddai angen i chi fynd ar drywydd hyn gyda Llywodraeth Cymru.

Os nad yw'r corff cyfrifol yn cydymffurfio

Os nad yw'r awdurdod lleol neu'r sefydliad addysg uwch yn bodloni'r gorchmyn o fewn yr amser a bennwyd, efallai y bydd yn rhaid i chi wneud cais i'r Uchel Lys i'w orfodi.

Fel arall, gallwch gwyno i'r Adran Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus:

Y Gangen Anghenion Dysgu Ychwanegol
Is-adran Cymorth i Ddysgwyr
Llywodraeth Cymru
Adeiladau'r Goron
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

additionallearningneedsbranch@llyw.cymru

Gallwch hefyd wneud cwyn i'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus:

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
1 Ffordd yr Hen Gae
Pencoed
CF35 5LJ

www.ombwdsmon.cymru

0300 790 0203

Rhagor o wybodaeth

Gobeithiwn fod y canllaw byr hwn yn ddefnyddiol. Mae'r rheoliadau llawn yn Rheoliadau Tribiwnlys Addysg Cymru 2021. Os oes gennych fynediad i'r rhyngwyd gallwch ddod o hyd i ddolen i'r rheoliadau uchod.